Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Felin
# Ynyswen
# Felin-foel
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 8BE

## Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/11/2016**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd ffrwd ddeuol ar gyfer disgyblion 3-11 oed yw Ysgol y Felin. Fe'i ffurfiwyd ym Medi 2007 pan unwyd Ysgol Iau ac Ysgol Fabanod Felin-foel. Mae chwe dosbarth prif ffrwd cyfrwng Saesneg a phedwar dosbarth prif ffrwd cyfrwng Cymraeg, gyda grwpiau oedran cymysg yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau.

Mae 255 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 4.7% ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae 84 o ddisgyblion (33%) yn y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg, a 136 o ddisgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Ar hyn o bryd, mae 15 disgybl yn cael cymorth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae 6 disgybl yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae dros 31% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae gan ryw 48% o ddisgyblion yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys 35 o ddisgyblion (13%) mewn canolfan anghenion addysgol arbennig, y mae gan saith ohonynt ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r ganolfan anghenion arbennig yn cynnwys dau ddosbarth asesu ac arsylwi yn y Cyfnod Sylfaen, uned iaith a dosbarth cyfnod allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol.

Mae'r gyllideb ysgolion unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Felin yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,689 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r isafswm yw £3,083. Mae Ysgol y Felin yn safle 13 o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn weithredol mewn gwersi ac maent yn awyddus i ddysgu
- mae cynnydd disgyblion mewn Cymraeg, Saesneg ac mewn rhifedd yn dda ar draws yr ysgol ar y cyfan, ac mae disgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yn cyflawni safonau da mewn Cymraeg
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae safonau disgyblion yn y maes hwn yn dda
- mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda, a thrwy raglen o werthoedd cytûn, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd dangos parch ac ystyriaeth tuag at oedolion a'i gilydd
- mae athrawon yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn cynllunio gweithgareddau'n effeithiol ac yn darparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol
- mae'r staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda trwy ddarparu ystod eang o weithgareddau ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu synnwyr o ddiben sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau a lles disgyblion
- mae proses hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr ac yn galluogi pob un o'r staff a'r llywodraethwyr i ennill dealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu
- mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella darpariaeth
- mae gan yr ysgol hanes da o weithredu i ysgogi deilliannau gwell ar gyfer disgyblion
- mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag ystod eang o asiantaethau allanol
- mae partneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r rhieni

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n fwy abl gynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod adborth athrawon i ddisgyblion yn dangos iddynt y camau nesaf yn eu dysgu yn gyson

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Er bod tua hanner y disgyblion yn dechrau'r ysgol â lefel isel o fedrau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yno. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol, gyda meddyliau ymholgar ac awydd i ddysgu, sy'n ymgymryd yn effeithiol â gweithgareddau a gwersi.

Mae cynnydd disgyblion mewn medrau llythrennedd mewn Cymraeg (yn y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg) a Saesneg ar draws yr ysgol yn dda ar y cyfan. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith, ac mae disgyblion sy'n dechrau â lefel isel o fedrau yn datblygu'n gyflym i gymryd rôl ystyrlon mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar eirfa gyffredinol a phynciol effeithiol, y maent yn ei defnyddio'n dda i drafod eu gwaith. Mae disgyblion mwy abl yn trafod pynciau amrywiol yn estynedig ac yn cynnig barn ar ystod dda o bynciau gwahanol.

Mae medrau darllen yn y ddwy iaith yn datblygu'n dda trwy'r ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso llawer o dechnegau addas i'w helpu i ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn darllen yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol o ystod eang o ffynonellau. Gallant ddefnyddio llyfrau a ffynonellau electronig yn effeithiol i ymchwilio i wybodaeth ar gyfer eu testunau dosbarth.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu darnau ysgrifennu i safon dda yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, gan ddefnyddio strwythurau brawddeg strwythuredig mewn dilyniant. Yn gyffredinol, maent yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir, ac yn defnyddio technegau ffonetig yn briodol i roi cynnig ar sillafu geiriau mwy anghyfarwydd. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn ysgrifennu'n estynedig at wahanol ddibenion mewn gwahanol feysydd o'r cwricwlwm, er enghraifft disgrifiad o anifail anwes, neu gofnodi cylch bywyd pili-pala.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn gwahanol *genres* ar draws y cwricwlwm. Defnyddiant y medrau a ddysgwyd mewn gwersi iaith i safon briodol mewn meysydd pwnc eraill. Yn gyffredinol, mae sillafu ac atalnodi yn cyd-fynd ag oedran a gallu disgyblion. Fodd bynnag, mae llawysgrifen lleiafrif o ddisgyblion yn anniben, sy'n arwain at gyflwyno gwaith yn wael. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol i ymateb i sylwadau athrawon. Yn gyffredinol, mae disgyblion mwy abl yn cyflawni safonau uchel yn eu gwaith ysgrifenedig yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn creu darnau ysgrifennu estynedig yn Saesneg, sy'n briodol i'w gallu yn ddigon aml.

Yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg, mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau, cwestiynau ac arweiniad Cymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus ac yn aml yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol yn Gymraeg gydag ystyr a dealltwriaeth briodol. Gwnânt ymdrech dda i fynd i'r afael â geiriau anodd neu anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig yn Gymraeg, mewn cyd-destunau cyfarwydd, i safon briodol. Gallant ffurfio cwestiynau i baratoi ar gyfer ysgrifennu deialogau a disgrifiadau o leoedd a phobl.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda iawn ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif priodol, ac yn datrys problemau rhif ysgrifenedig yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio unedau safonol i fesur hyd a chynhwysedd, ac yn casglu a chyflwyno data mewn ystod o ffurfiau. Mae disgyblion mwy abl yn deall gwerth lle hyd at dri digid, gallant roi'r newid cywir o bunt, a defnyddiant unedau pwysau safonol, er enghraifft wrth bwyso bwyd ar gyfer anifeiliaid fel rhan o waith testun. Defnyddiant eu medrau rhifedd ar lefel briodol i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu eu medrau rhifedd i safon uchel. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o rifau a chyfrifo, gwahanol ffurfiau o fesur, ac yn casglu data i greu ffurfiau priodol o graffiau i gefnogi gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft graffiau llinell ar gyfer tymheredd dros gyfnod a graffiau colofn i gymharu hydoedd gwahanol afonydd.

Mae safon medrau disgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol ar draws meysydd cwricwlaidd eraill. Defnyddiant ystod o offer yn hyderus – gan gynnwys cyfrifiaduron llechen, gliniaduron a pheiriannau ar ddesg, yn ogystal â dyfeisiau cofnodi o ddyluniad amrywiol i gofnodi gwaith mewn gwahanol ffyrdd fel rhan o'u gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae pob un o'r disgyblion yn ddefnyddwyr cofrestredig rhwydwaith addysgol ac maent yn defnyddio'i gymwysiadau yn hyderus.

Mae disgyblion o bob oedran yn defnyddio ystod o adnoddau TGCh i gyfathrebu – gan ysgrifennu straeon creadigol, creu cyflwyniadau, llyfrau syml, tynnu lluniau a chreu patrymau. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn datblygu'n gynyddol eu medrau a'u dealltwriaeth o'r hyn y mae'r offer yn gallu ei wneud, i gynhyrchu darnau o waith sy'n fwy cymhleth.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn defnyddio TGCh i greu graffiau a chofnodi canfyddiadau o arbrofion ac arolygon. Maent yn casglu data mewn ffyrdd amrywiol ac yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r cyfrifiadur i greu graffiau. Er enghraifft, gwnaeth disgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 siart cyfrif o bryfed pwll o ymarfer 'trochi mewn pwll', ac fe wnaethant greu graffiau o'u canlyniadau. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio cronfeydd data yn hyderus. Er enghraifft, fe wnaethant greu cronfa ddata o chwaraewyr pêl-droed yn ystod cystadleuaeth Ewro 2016.

Mae disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn defnyddio taenlenni i ddangos gweithgareddau ysgol perthnasol, er enghraifft dangos incwm a gwariant siop ffrwythau'r ysgol. Maent wedi defnyddio taenlenni'n effeithiol hefyd fel rhan o waith y Cyngor Eco wrth ddangos costau cynnal yr ysgol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion ar draws y meysydd dysgu dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi amrywio. Ar y deilliant disgwyliedig, mae datblygiad mathemategol disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf yn gyffredinol o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar gyfer llythrennedd (Cymraeg), mae'r ysgol yn symud rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o ysgolion tebyg, tra bod llythrennedd (Saesneg) wedi ei gosod yn gyffredinol yn y 50% is neu'r 25% gwaelod. Ar y deilliant uwch, mae llythrennedd (Cymraeg) wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg, tra bod perfformiad mewn llythrennedd (Saesneg) a datblygiad mathemategol wedi amrywio dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf ar y cyfan o gymharu ag ysgolion tebyg, tra bod perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio, gan ei symud rhwng y 50% is a'r 50% uwch. Ar y lefel uwch, mae perfformiad mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar y cyfan, tra bod perfformiad mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch yn gyffredinol. Ar gyfer perfformiad mewn Saesneg, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% is yn gyson.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros gyfnod. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol o ran cyflawniad bellach rhwng y disgyblion hyn a'r rheiny nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheiny yn y Ganolfan Anghenion Arbennig, yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Nid oes unrhyw duedd o dangyflawni gan fechgyn, ac mae'r disgyblion prin y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a'r rheiny o gefndir ethnig lleiafrifol, yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn gwneud cynnydd sy'n cyd-fynd â'u hoedran a'u gallu ar y cyfan hefyd.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn weithredol mewn gwersi ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae bron pob un ohonynt yn cydweithio ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Dangosant fwynhad amlwg mewn dysgu, yn enwedig mewn gwersi ymarferol, er enghraifft wrth archwilio arteffactau Celtaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach a diogel, gan gynnwys yr angen i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn gyfrifol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am bwysigrwydd bwyta diet cytbwys, yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae dros hanner ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys rownderi, pêl-droed a rhôl-sglefrio. Mae hyn yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o fyw yn iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn teimlo'n bryderus neu os bydd ganddynt broblem. Maent wedi gweithio gyda'r pennaeth i ddatblygu system 'cyfeillion maes chwarae' ac wedi sefydlu 'mainc cyfeillgarwch' i sicrhau bod disgyblion yn mwynhau amseroedd chwarae.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Trwy raglen o werthoedd cytûn, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd dangos parch ac ystyriaeth tuag at oedolion ac at ei gilydd. Mae hon yn nodwedd nodedig yn yr ysgol.

Mae gan y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco ran weithredol yn yr ysgol ac maent yn cynrychioli anghenion y disgyblion yn dda. Mae'r cyngor ysgol wedi bod â rôl ragweithiol mewn rheoli ymddygiad ar y maes chwarae ac mae wedi cyflwyno 'clwb cinio' a neilltuo ardal o'r maes chwarae ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Mae ganddo rôl bwysig hefyd o ran gweithredu ymateb yr ysgol i fenter siarter iaith Llywodraeth Cymru, ac mae'n mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Mae'r pwyllgor eco wedi bod yn rhagweithiol o ran datblygu gweithgareddau 'gwyrdd', fel dylunio ardaloedd plannu ar dir yr ysgol, a gweithio gyda'r gymuned leol i 'godi sbwriel'. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd.

O gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg, mae'r cyfraddau presenoldeb wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uchaf dros y pedair blynedd hyd at 2015. Mae'r gyfradd ar gyfer 2016 yn dangos dirywiad dros y flwyddyn flaenorol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol a'r gwersi'n brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae llawer o athrawon yn cynnwys disgyblion mewn cynllunio gweithgareddau tymhorol ac yn ennyn diddordebau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn dewis themâu yn ofalus ac yn cynllunio gweithgareddau trawsgwricwlaidd ysgogol a chyffrous.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl yn sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn gyson ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae pob un o'r staff addysgu yn sicrhau y caiff medrau cynyddol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd eu cynllunio, a'u bod yn cael eu holrhain yn effeithiol. Maent yn datblygu'r medrau hyn yn dda mewn gwersi iaith a mathemateg penodol, ac yn sicrhau bod disgyblion yn eu defnyddio ar lefel briodol mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn aml yn cyfuno gwahanol fedrau'n llwyddiannus iawn mewn cynllunio, er enghraifft wrth ddylunio cit pêl-droed newydd ar gyfer Cymru neu greu darn o waith celf yn arddull Picasso ar gyfer oriel newydd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh a chymhwyso medrau TGCh yn gryfder arbennig.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r ardal ac mae'n aml yn cyflwyno thema newydd yn dilyn ymweliad â thirnod neu drwy gynnwys darparwyr allanol. Er enghraifft, fe wnaeth taith ddiweddar i Gastell Henllys roi cipolwg i ddisgyblion ar fywyd y Celtiaid.

Mae athrawon yn cynllunio, yn datblygu ac yn gwella ymwybyddiaeth disgyblion o'r iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i thraddodiadau yn gyson. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn ystod gwersi a'r tu allan i'r ystafelloedd dosbarth, ac maent yn annog disgyblion i wneud yr un fath. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn darparu digon o strwythur i ddisgyblion ddysgu oddi wrtho yn effeithiol. Ceir cynllun gwaith clir ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos Cymreig yn effeithiol, ac yn datblygu'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, o ganlyniad i gymorth gan arlunydd lleol, mae disgyblion yn creu modelau 3D yn darlunio Terfysg Beca.

Mae bron pob un o'r athrawon, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, yn cynllunio a defnyddio'r ardaloedd yn yr awyr agored i wella dysgu ac addysgu. Er enghraifft, trwy greu gwesty i chwilod, mae disgyblion yn dysgu am greaduriaid bach a'u cynefinoedd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol trwy ystod o fentrau a gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, er enghraifft trwy gompostio gwastraff ysgol, cynnal cysylltiadau ag ysgol ym Malawi, a gweithio i hyrwyddo cynnyrch cynaliadwy, fel y rheiny sydd ar gael o archfarchnadoedd lleol, sef coffi, te, a ffrwythau.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn cynllunio gweithgareddau'n effeithiol ac yn darparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth drylwyr am alluoedd y disgyblion a'u hanghenion unigol, sy'n eu galluogi i ddefnyddio strategaethau effeithiol i symud y dysgu ymlaen. Yn yr achosion hyn, ceir cydbwysedd da rhwng tasgau sy'n cael eu harwain gan yr athro a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan y disgybl i gynnal cyflymdra bywiog a rhoi ffocws i'r disgyblion mewn sesiynau dysgu. Mae athrawon yn defnyddio holi effeithiol i herio a chymell disgyblion. O ganlyniad, yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn deall beth mae'r athrawon yn ei ddisgwyl ohonynt, ac mae athrawon yn trafod gyda nhw pa mor dda y maent wedi cyflawni.

Mae bron pob un o'r athrawon yn darparu tasgau ar bob lefel sy'n briodol ar gyfer ystod o alluoedd gwahanol. Mae'r amrywiaeth hon o weithgareddau'n cynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae bron pob un o'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau TGCh i gefnogi eu haddysgu. Bron ym mhob dosbarth, ceir perthynas weithio gadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Mae hyn yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i gymryd rôl weithredol yn y wers. Mae bron pob un o'r athrawon yn rheoli ymddygiad yn dda iawn.

Yn yr achosion prin lle nad yw'r addysgu mor effeithiol, mae athrawon yn rhoi gormod o arweiniad a chyfarwyddyd i ddisgyblion, gan gynnwys gorddefnyddio taflenni gwaith sy'n cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl ddangos y gallu i gynhyrchu darnau o waith estynedig, yn enwedig yn Saesneg. Mae cyflymdra'r addysgu a'r dysgu yn y dosbarthiadau prin hyn yn araf, mae cwestiynau'r athro'n rhy gaeedig, ac nid ydynt yn cynnig her briodol i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol.

Mae marcio'r rhan fwyaf o athrawon yn effeithiol o ran nodi ffyrdd i ddisgyblion wella'u gwaith. Mewn llythrennedd, mae hyn yn galluogi disgyblion i ailddrafftio eu gwaith yn dda. Ceir cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ac mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu yn briodol mewn llawer o weithgareddau. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw disgyblion yn gwybod sut gallant wella eu gwaith bob amser o ganlyniad i hyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi athrawon a disgyblion i gytuno ar dargedau priodol ar gyfer gwella, y maent yn eu rhannu'n effeithiol gyda rhieni. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plant a'u targedau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, ac maent yn bodloni'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn gryfder ac mae pwyslais amlwg ar draws yr ysgol gyfan ar hyrwyddo a chefnogi lles disgyblion. Mae athrawon yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau'n cynnwys cyd-addoli rheolaidd, hyrwyddo gwerthoedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol lleol. Mae pobl sy'n ymweld â'r ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr agweddau hyn hefyd.

Mae'r staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda trwy ddarparu ystod eang o weithgareddau ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn nodi'r rhai mwy agored i niwed yn eu plith yn gynnar. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn hefyd gyda llawer o asiantaethau allanol, fel y seicolegydd addysg a'r 'Tîm o Amgylch y Teulu' i sicrhau bod unigolion yn cael eu cynorthwyo yn unol â'u hanghenion. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn y dosbarthiadau arbenigol yn darparu rhaglenni unigoledig hynod effeithiol sy'n sicrhau eu bod yn bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mewn dosbarthiadau prif ffrwd, mae staff yn defnyddio cynlluniau addysg unigol priodol i dargedu cymorth a sicrhau bod disgyblion yn datblygu a llwyddo.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn cynorthwyo ag ystod o fentrau, gan gynnwys trefnu'r 'siop ffrwythau' a gwerthu poteli dŵr wedi'u dylunio'n arbennig. Ceir llawer o weithgareddau sy'n hyrwyddo addysg iechyd, gan gynnwys creu wynebau a phosteri ffrwythau i argymell bwyta diet cytbwys.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein, er enghraifft trwy sicrhau eu bod yn dewis cyfrinair diogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned amrywiol, gynhwysol a gofalgar. Mae pob un o'r staff a'r disgyblion yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos ar y cyd sy'n seiliedig ar gyfeillgarwch a pharch. O ganlyniad, mae'r ysgol yn amgylchedd hapus a phleserus ar gyfer disgyblion a staff fel ei gilydd.

Mae adeilad yr ysgol yn groesawgar, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae'n darparu amgylchedd ysgogol lle mae disgyblion yn mwynhau gweithio a chwarae. Ar draws yr ysgol, ceir arddangosfeydd lliwgar, o ansawdd da, sy'n dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu mewn ffordd effeithiol, ac mewn llawer o feysydd ar draws y cwricwlwm. Mae gwaith celf a phosteri sy'n hyrwyddo'r ethos Cymreig yn amlwg iawn.

Mae athrawon yn defnyddio'r holl le sydd ar gael yn effeithiol i hyrwyddo dysgu, gan gynnwys darparu ardaloedd addas i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r ardal yn yr awyr agored ar gyfer gweithgareddau corfforol yn eang ac yn cynnwys cae mawr a dwy iard fawr. Mae'r ardaloedd dysgu allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn lliwgar a diddorol ac yn darparu cyfleoedd dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion.

Ceir digonedd o adnoddau i gefnogi addysgu'r cwricwlwm, gan gynnwys ystod eang o lyfrau ar gyfer disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth a'r llyfrgelloedd. Gall disgyblion fanteisio ar ystod eang o offer TGCh o ansawdd da, y maent yn eu defnyddio'n dda i wella'u gwaith ar draws y cwricwlwm.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arweinydd cefnogol ac effeithiol sy'n cyfleu ei weledigaeth ar gyfer gwella'r ysgol yn barhaus yn llwyddiannus.

Mae staff a llywodraethwyr yn rhannu synnwyr o ddiben, sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau a lles disgyblion. Mae uwch arweinwyr ac athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau penodol ac fe geir llinellau atebolrwydd clir.

Mae cyfarfodydd rheolaidd y staff a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau datblygu'r ysgol a chynnydd disgyblion.

Ceir proses sefydledig ar gyfer rheoli perfformiad pob un o'r staff. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r broses yn effeithiol i gefnogi datblygiad proffesiynol staff ac mae targedau'n cysylltu'n gryf â'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae enghreifftiau da yn cynnwys rhoi'r Siarter Iaith Gymraeg a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion mewn Cymraeg a TGCh.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn drwyadl. Mae ganddynt wybodaeth dda am ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio, trwy adroddiadau manwl gan y pennaeth a'u hymweliadau rheolaidd. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau a gwendidau'r ysgol, ac mae eu rôl o ran dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn datblygu'n briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr ac yn galluogi pob un o'r staff a'r llywodraethwyr i ennill dealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae'n defnyddio ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data.

Mae arweinwyr pwnc yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu pynciau. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu rôl pob un o'r athrawon o ran arfarnu darpariaeth mewn gwersi. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn, ac mae'n rhy gynnar i weld effaith lawn y gwaith hwn o ran sicrhau cysondeb yr addysgu ym mhob dosbarth.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer casglu barn rhieni a disgyblion trwy holiaduron, ac mae'n ymateb yn briodol i'w hawgrymiadau.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er ei fod yn faith, yn rhoi disgrifiad cywir a gonest o gryfderau'r ysgol ac yn nodi meysydd lle mae angen i'r ysgol wella.

Mae cynllun datblygu strwythuredig yr ysgol yn nodi goblygiadau o ran cost, personél allweddol a meini prawf llwyddiant o fewn graddfeydd amser realistig. Mae'n canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella darpariaeth. Mae uwch arweinwyr yn monitro effaith cynlluniau gwella'r ysgol ar ddeilliannau a lles disgyblion yn rheolaidd. O ganlyniad, gall yr ysgol weithredu'n briodol yn unol â materion sy'n codi.

Mae gan yr ysgol hanes da o weithredu i ysgogi deilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod eang o bartneriaethau sy'n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Ceir cyfathrebu da iawn gyda rhieni. Mae'r ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd iddynt gefnogi dysgu eu plant, fel cynorthwyo eu gwaith ysgol trwy'r rhwydwaith TGCh. Mae rhieni'n gefnogol ac mae staff a llywodraethwyr yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol.

Yr ysgol yw canolbwynt ei chymuned ac mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'r ardal i gyfoethogi eu profiadau cwricwlwm, er enghraifft trwy ymweliadau â mannau addoli lleol, a mannau gwaith, fel y gronfa ddŵr leol, a'r clwb rygbi lleol.

Mae'r cysylltiadau cryf iawn gyda'r lleoliad cyn-ysgol, sydd wedi'i leoli ar y safle, yn sicrhau bod disgyblion iau yn ymgynefino yn yr ysgol yn hyderus. Mae cyfleoedd i'r plant cyn-ysgol gymryd rhan mewn sesiynau datblygu iaith cyn dechrau'r ysgol yn hynod werthfawr.

Mae rhaglenni pontio effeithiol ar waith gyda'r ysgolion uwchradd lleol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r gwaith cymedroli gyda'r ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn sicrhau dibynadwyedd asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol.

Mae partneriaeth yr ysgol gydag asiantaethau arbenigol allanol i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd yn gryfder yn yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad da i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae arweinwyr yn defnyddio staff yn briodol yn unol â'u harbenigedd a'u medrau i fodloni anghenion disgyblion.

Mae'r cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu a chynnydd disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd hyfforddi perthnasol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae effaith yr hyfforddiant TGCh ar gyfer athrawon, er enghraifft, wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth mewn ystafelloedd dosbarth ac ar safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r holl gyllid sydd ar gael i fodloni anghenion ei disgyblion. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn unol â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Defnyddia'r ysgol y grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion a nodwyd. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn deilliannau rhifedd, llythrennedd a lles ar gyfer y disgyblion hynny.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692391 - YSGOL Y FELIN**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 258 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 34.5 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 27 | 33 | 40 | 37 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 85.2 | 69.7 | 87.5 | 83.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 22 | 24 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 69.2 | 72.7 | 83.3 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 38.5 | 22.7 | 29.2 | 20.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 11 | 16 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 81.8 | 100.0 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 35.7 | 36.4 | 50.0 | 38.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 33 | 40 | 37 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.6 | 72.7 | 90.0 | 89.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.0 | 30.3 | 22.5 | 32.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 33 | 40 | 37 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.3 | 84.8 | 97.5 | 97.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 63.0 | 54.5 | 60.0 | 81.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692391 - YSGOL Y FELIN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 258 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 34.5 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 24 | 36 | 25 | 21 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.3 | 91.7 | 84.0 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 36 | 25 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 88.9 | 84.0 | 90.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.2 | 30.6 | 28.0 | 23.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 8 | 7 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 85.7 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 12.5 | 28.6 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 36 | 25 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 91.7 | 88.0 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.8 | 38.9 | 36.0 | 38.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 36 | 25 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 91.7 | 88.0 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 41.7 | 56.0 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 103 | 103<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 103 | 100<br>97%<br>92% | 3<br>3%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 103 | 103<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 103 | 102<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 101 | 95<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 103 | 103<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 103 | 103<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 103 | 103<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 102 | 100<br>98%<br>91% | 2<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 103 | 100<br>97%<br>95% | 3<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 89<br>91%<br>77% | 9<br>9%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 97 | 84<br>87%<br>84% | 13<br>13%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 17 | 15 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 17 | 15 | 1 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 88% | 6% | 6% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 17 | 14 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 17 | 11 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 16 | 7 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 44% | 56% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu'n dda. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 17 | 9 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 15 | 6 | 8 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 40% | 53% | 7% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 12 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 12 | 4 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 17 | 11 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 17 | | 15<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 17 | | 9<br>53% | 7<br>41% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 16 | | 9<br>56% | 7<br>44% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 11 | | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 17 | | 7<br>41% | 9<br>53% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 16 | | 14<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Helen Mary Jennings | Arolygydd Cymheiriaid |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.